

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar nos Fercher, Chwefror 1^{af}, 2017, 2017 am 7.15 yh.

Preseennol

Cynghorwyr Mrs J. Collins P. H. Roberts D. Hopkins
 Mrs J. Evans

Ymddiheuriadau

Cynghorydd I. Rh. Llewelyn

1334.

Penodi Cadeirydd i'r cyfarfod

Penderfynwyd apwyntio Is-Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Mrs J. Collins, yn Gadeirydd ar y Cyfarfod

1335.

Adolygiad o Bolisiau a Dogfennau

(i) – Rheoliadau Ariannol – Roedd y Clerc wedi derbyn copi drafft diwygiedig o'r Rheoliadau Ariannol oddiwrth Un Llais Cymru, ac roedd angen ystyried ac addasu hwn fel sy'n briodol i'r Cyngor hwn.

Roedd y pwyllgor am argymhell diwygio Rheoliadau Ariannol y Cyngor er mwyn mabwysiadu, gydag ambell welliant, y fersiwn ddrafft newydd a ddarparwyd gan Un Llais Cymru. Byddai copïau newydd yn cael eu darparu unwaith bod pob gwelliant wedi'i gynnwys.

(ii) Cofrestr Asedau – Roedd y Clerc wedi diweddarau'r gofrestr ac wedi cynnwys y gliniadur newydd a brynodd y Cyngor at ddefnydd y Clerc.

(iii) Archwiliwyd yr holl ddogfennau a pholisiau eraill, ac **argymhellwyd** y dylent aros yn ddigyfnewid, fel y cytunwyd ym mis Chwefror 2016.

1336.

I ystyried Polisi Cwynion drafft

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried Polisi Cwynion drafft, polisi sy'n dilyn y templed a argymhellir gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae'r polisi yn nodi'n glir y gweithdrefnau a'r amserlen am drafod Cwynion, ac unrhyw apêl a fydd ei angen. Argymhellwyd y dylid mabwysiadu'r polisi.

1337.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.45 yh.

Chwefror 1^{af}, 2017